

# Strôc



Cardiau chwarae rôl: **Strôc**

## Beth sy'n digwydd?

Mae brawd a chwaer allan gyda'u nain. Maent wedi cerdded i lawr i'r siopau i gael rhywfaint o nwyddau ac yn awr maent yn cael rhywbeth bach i'w fwyta mewn caffi ac yn sgwrsio.

Cardiau chwarae rôl: **Strôc**

## Syniadau

- Defnyddiwch gadeiriau a byrddau i greu golygfa mewn caffi.

- Isod ceir amrywiaeth o rolau – mewn grwpiau bach, mae pob un yn dewis cymeriad i'w chwarae. Gwnewch yn siŵr bod pob un yn y grŵp yn cael cyfle i chwarae rôl pob cymeriad. Neu, darllenwch y senario fel stori.

## Rolau

- Treuliwch amser yn mynd i mewn ac allan o'r rôl.

## Sesiwn ôl-drafod

- Wedyn, treuliwch ychydig o amser yn trafod y stori.

Gallech feddwl am y canlynol:

- Beth ddigwyddodd i'r un sy'n cael strôc? Pa arwyddion o strôc a welwyd?

- Sut wnaeth y cynorthwydd eu helpu?

- Beth wnaeth y gwyliwr? Beth allent ei wneud yn y dyfodol i fod yn gynorthwywr?

Cardiau chwarae rôl: **Strôc**

## Y sawl sy'n cael strôc – Nain

Mae'r unigolyn hwn allan am y prynhawn gyda'i hwyron ac maent wedi oedi i gael byrbryd mewn caffi.

Yn sydyn, mae hi'n cael cur pen difrifol. Mae'n dechrau colli rheolaeth ar ochr chwith ei chorff ac mae ochr chwith ei cheg yn dechrau llithro.

Mae ei golwg yn mynd yn niwlog iawn. Mae hi'n ddryslyd iawn, ond nid yw hi'n gallu mynegi ei hunan. Nid yw hi'n gallu siarad yn dda a dim ond ei braich dde mae hi'n gallu ei chodi.

Cardiau chwarae rôl: **Strôc**

## Cynorthwywr - unigolyn ifanc

Mae'r unigolyn hwn yn treulio'r prynhawn gyda'i nain a'i frawd/chwaer. Maent wedi oedi i eistedd mewn caffi, ac maent yn sylwi bod eu nain yn edrych yn sâl.

Mae eu nain wedi llithro i'r chwith ac mae ei hwyneb yn simsanu.

Mae hi'n ymddangos yn ddryslyd ac yn methu ateb eu cwestiynau'n glir. Maent yn cofio am FAST. Maent yn gwirio'r wyneb, ac yn gweld ei fod yn simsan. Maent yn gofyn iddi godi ei breichiau ond dim ond codi'r fraich dde mae hi'n gallu ei wneud. Maent yn gofyn iddi ddweud ei henw wrthynt a ble mae hi ar hyn o bryd, ond nid yw hi'n gallu siarad yn dda. Maent yn estyn am ei ffôn ac yn ffonio 999.

Cardiau chwarae rôl: **Strôc**

## Gwyliwr - unigolyn ifanc

Mae'r unigolyn hwn yn treulio'r prynhawn gyda'i nain a'i frawd/chwaer.

Maent wedi oedi i eistedd mewn caffi. Mae'r brawd/chwaer yn sylwi bod eu nain yn edrych yn sâl.